

Manteisio ar y dŵr

Mae ynni dŵr yn fwy effeithiol na haul na gwynt, yn ôl yr Athro Gareth Wyn Jones...

RWY'N siŵr bod llawer o ddarllenwyr **Golwg** yn cofio ymdrech yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i brynu ffarm Hafod y Llan ar lethrau'r Wyddfa i sicrhau ei gogoniant dilychwyn i ni ac i'r cenedlaethau a ddaw. Gwireddwyd y freuddwyd gyda chefnogaeth y cyhoedd a rhodd o filiwn o bunnoedd gan Syr Anthony Hopkins.

Yr wythnos hon, roedd diwrnod agored yn Hafod y Llan i ddatlu'r cynlluniau trydan hydro a llwyddiannau eraill yr Ymddiriedolaeth i arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddol yn rhai o leoliadau mwyaf arbennig a sensitif Cymru.

Mae cynllun trydan hydro bychan eisoes ar gael yn Hafod y Llan ar yr Afon Gosen sy'n cynhyrchu tua 75 MWawr y flwyddyn. Ond mae cynllun llawer mwy ar ei hanner yng Nghwm y Llan ger Llwybr Watkin fydd â'r gallu i gynhyrchu 15 GWawr y flwyddyn.

Mae Keith Jones o'r Ymddiriedolaeth yn pwysleisio mai pobol a'u hagweddau a'u hymddygiad sydd fwyaf pwysig i'w bolisi ynni. Mae'n bosib arbed llawer o ynni a phres trwy ddefnyddio synnwyr cyffredin a rheoli cadarn ar ei ddefnydd.

Amcan tirlfeddiannwr mwyaf Cymru yw lleihau eu defnydd o ynni tua 40% y flwyddyn; sy'n arbed nid yn unig pres mawr, ond 1.7 miliwn tonnell o CO₂. A'r nod yw cynhyrchu o leiaf 50 GWawr o ynni adnewyddol [gwres a thrydan], yn bennaf o ddŵr a choed yn y brynau, ond hefyd trydan PV mewn llefydd addas megis siroedd Penfro a Ceredigion a Phenrhyn Llŷn.

SGILIAU A CHEFNDIR GYDA'R YMDDIRIEDOLAETH

Teg yw nodi bod Hafod y Llan mewn llecyn ffafriol iawn am reswm hanesyddol. Yn nes y fyny'r dyffryn y mae hen Bwerdy Cwm Dyli sy'n defnyddio dŵr Llyn Llydaw ac felly mae gwifrau trydan addas yn agos at y fferm i dderbyn y trydan ychwanegol. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth y sgiliau a chefnidir i lywio eu ffordd trwy gymhlethdodau'r rheolau a'r asesiadau a fynnir o du'r hen Gyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdodau Cynllunio lleol heb sôn am y DNOs [*Y District Network Organisations*] sy'n rheoli'r cysylltiad, a dosbarthiad trydan, oddi wrth y Grid Cenedlaethol.

Nid yw bob safle mor ffodus â Hafod y Llan ond mae strategaeth a phrofiadau'r Ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cynnig gwersi hanfodol i ni i gyd. Mae bron yn sicr bod modd safio 30TWawr o'r 125 i 130 TWawr a ddefnyddir yng Nghymru ac y byddai hyn yn hynod lesol i'n pocedi ac i'r amgylchedd.

Ym Mannau Brycheiniog mae ymdrechion clodwiw i ddatblygu ynni hydro yn cynnwys cynllun Abercraf sy'n cynhyrchu ~100 MWawr y flwyddyn. Yn ôl Gren Ham, y prif sbardun, byddai canran sylweddol o gymunedau'r ardal yn gallu cynhyrchu o leiaf 50% o'u trydan o gynlluniau hydro bach (maint dan 20KW). Rhaid nodi, heb fod yn rhy dechnegol, bod ynni dŵr yn fwy effeithiol na haul na gwynt gan fod y 'llwyth' - cyfartaledd yr amser mae'r peiriant yn gweithio neu'n gorfod cael ei stopio i gynnal a chadw'r peiriannau - cymaint yn hwy. [Os yw'r 'peiriant cynhyrchu' yn gweithio bob awr o'r flwyddyn, mae cynllun maint 100KW yn cynhyrchu 100 x 8760 - sef 876 MHawr].

ANGEN I CNC RYDDHAU POTENSIAL YNNI ADNEWYDDOL

Heb os, trwy ucheldiroedd Cymru, mae potential sylweddol iawn i achub allyrron carbon a chreu elw i unigolion a chymdeithas.

Yn anffodus, mae datblygwyr bach yn wynebu anawsterau biwrocraidd a gwastraff amser affwysol, sy'n dal y sefyllfa yn ôl. Ac mae gan y DNOs fonopoli ac yn aml yn codi'n ddrud am greu cysylltiad â'r Grid.

Yn y gwanwyn ganed Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a dyma sialens i'r Corff newydd.

Mae pawb call yn cydnabod bygythiad newid hinsawdd nid yn unig i'n cymdeithas ddynol (llifogydd ac ati) ond i'n hetifeddiaeth naturiol.

Felly, onid yw'n angenrheidiol i CNC a swyddogion a gwleidyddion yn y Cynulliad symud ar fyrder i leihau'r byrdwn biwrocraidd a'r gost ac i ryddhau potensial ynni adnewyddol Cymru, yn arbennig o ddŵr a haul, lle nad oes y gwrthwynebiad fel y ceir gyda melinau gwynt?

[Mehefin 13, 2013]